Busnes mewn Ffocws

Adroddiad Blynyddol 2018-2019





Gan ein Cadeirydd

Ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr mae'n bleser mawr gennyf gymeradwyo adroddiad blynyddol eleni. Bu eleni'n flwyddyn drawsnewidiol i Busnes mewn Ffocws ym mhob maes o'r busnes.

Mae ein portffolio o eiddo wedi datblygu'n sylweddol i atgyfnerthu ein presenoldeb cryf yng Nghymoedd De Cymru ar ôl i ni ddod i feddiant Tŷ Crownford ym Merthyr Tudful. Mae'r safle newydd hwn wedi caniatáu i'r busnes ymestyn y ddarpariaeth o le hyblyg a fforddiadwy i fusnesau a chynyddu cyrhaeddiad gwasanaethau cymorth busnes ac ariannol.

Mae Tîm Busnes Cymru yn datblygu'n gyson i ateb y galw ac nid yw eleni wedi bod yn ddim gwahanol. Mewn amgylchedd heriol i fusnes, mae'r tîm wedi darparu mwy o gyngor nag erioed o'r blaen, wrth wella ansawdd y gwasanaeth ac adborth cleientiaid.

Gwelwyd trawsnewidiad pellach ar ffurf ein Hybiau Menter newydd yng Nghaerfyrddin a'r Drenewydd, Powys. Roedd hyn yn gam sylweddol a chyffrous i Busnes mewn Ffocws wrth i'r tîm ymateb i'r her o sefydlu cymuned gref o entrepreneuriaid busnes yng nghefn gwlad Cymru. Fel bob amser, mae ein llwyddiant yn dibynnu ar bartneriaethau cryf ac mae'r Hybiau Menter newydd wedi rhoi cyfle i ni greu a chryfhau cysylltiadau newydd.

Mae perfformiad cadarn gan ein timau Benthyciadau Dechrau Busnes a Syniadau Mawr Cymru wedi bod yn sail i'r flwyddyn hon o gyflenwi cryf gyda'r ddau dîm yn rhagori ar y disgwyliadau. Mae busnesau bach a chanolig yn chwarae rhan hanfodol yn economi Cymru, felly mae cyngor busnes arbenigol yn bwysicach nag erioed yn yr amseroedd ansicr hyn. Heb os, bydd y farchnad yn teimlo effaith unrhyw benderfyniad ar Brexit ac rwy'n falch bod Busnes mewn Ffocws mewn sefyllfa dda i ymateb a darparu cefnogaeth.

Mae'n bleser pur bod yn Gadeirydd y sefydliad deinamig, blaengar hwn wrth i ni ddatblygu i gefnogi busnesau'r dyfodol.

Geraint Evans MBE, Cadeirydd

Eiddo

Eiddo Busnes mewn Ffocws yn arwain y ffordd

Mewn marchnad eiddo fwyfwy cystadleuol, mae Busnes mewn Ffocws yn parhau i ragori trwy gynnig darpariaeth o safon uchel. Gyda phortffolio sy'n lletya mwy na 335 o fusnesau, rydym ni'n gwybod beth sydd ei angen ar denantiaid ac mae gennym brofiad hir o'i ddarparu. Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n wahanol i bawb arall yw ein dyhead i gefnogi eraill a rhannu ein profiad.

Mae Busnes mewn Ffocws yma i gynorthwyo datblygiad busnes yng Nghymru felly pan gysylltodd perchnogion Neptune Court, Bae Caerdydd, roeddem yn hapus i rannu ein model profedig gyda nhw. Rydym wedi bod yn rheoli'r eiddo hwn ers tair blynedd ac wedi creu adeilad swyddfa â gwasanaeth amlfeddiannaeth sydd bellach yn gartref i dros 20 o fusnesau ffyniannus - gan fynd â'r adeilad o fod yn wag i fod yn llawn. Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad rydym ni wedi'u darparu i'r perchnogion wedi rhoi hyder iddyn nhw barhau â'n model ni eu hunain.

Eleni fe wnaethom ymgymryd â'r her o ddod â'n fformiwla lwyddiannus i Dŷ Crawford ym Merthyr. Cawsom yr allweddi ym mis Awst a chroesawom ein tenant cyntaf ym mis Hydref. Mae'r eiddo hwn yn llawn ar hyn o bryd, diolch i'n telerau hyblyg, lleoedd o ansawdd uchel a'n tîm rhagorol, ac nid yw'n stopio yno – rydym wedi parhau i chwilio am gaffaeliadau newydd a byddwn yn ehangu ymhellach yn 2019/20.

Mae ein tîm cynnal a chadw yn gweithio'n galed ar draws pob un o'n 14 safle sy'n eiddo i ni neu'n cael eu rheoli gennym i sicrhau safonau uchel o lety – mae'r cyfraddau deiliadaeth o 98.4% yn adlewyrchu pa mor ymroddedig yw ein tîm i sicrhau bod y tenantiaid yn hapus.



335
tenantiaid

ar draws
14 safle dan
berchnogaeth
a rheolaeth

Busnes Cymru yn bwrw ymlaen

Busnes | Business Cymru | Wales

Ar yr adeg hon o ansicrwydd cynyddol i fusnesau yng Nghymru, mae tîm Busnes Cymru wedi ymgynghori a darparu mwy o gyngor nag erioed o'r blaen.

Ein nod oedd sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaeth o ansawdd uchel wrth gynyddu nifer y cleientiaid sy'n manteisio ar y gwasanaeth, a gwnaethom gyflawni hyn trwy addasu ein dull o farchnata a chreu effeithlonrwydd mewnol trwy arloesi wrth ddarparu.

Yna addaswyd y fenter flaenllaw hon gan Lywodraeth Cymru i gyflawni nodau polisi newydd gan gynnwys ehangu'r sector gofal plant ac ymateb cadarn i ddatblygiad Brexit yn unol â Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Rhyngom ni a'n partneriaid Busnes Cymru, mae'r tîm yn darparu cefnogaeth i fwy na 15,000 o gleientiaid a thros oes y gwasanaeth hwn, wedi cefnogi'r gwaith o greu mwy na 10,000 o swyddi ac wedi helpu dros 2,000 o fusnesau i ddechrau masnachu.

Mae buddion y newidiadau hyn i'w gweld yn amlwg yn y canlyniadau cryf a gyflawnwyd yn gyson trwy gydol y flwyddyn gyfredol. Ar yr adeg hon o newid a chyflenwi mwy o wasanaethau, mae safonau wedi parhau yn uchel a ddangosir gan ein sgoriau boddhad cleientiaid annibynnol, sy'n dangos tuedd ar i fyny mewn boddhad mesuradwy. Ein huchelgais o hyd yw gwella'r canlyniadau hynny er budd ein cleientiaid.

Rydym yn falch o effaith y gwasanaeth ar fusnesau yng Nghymru, sy'n dangos ymroddiad a gwaith caled pob aelod o dîm Busnes Cymru.



Hybiau Menter

Ymateb i'r her

Gyda'r dasg o greu cymuned Hwb Menter mewn dwy ardal wledig yng Nghymru, mae Busnes mewn Ffocws wedi recriwtio tîm galluog iawn ac wedi dod o hyd i ddau leoliad unigryw.

Mae Canolfan yr Egin S4C yng Nghaerfyrddin a Warws Brenhinol Cymru yn y Drenewydd mor wahanol ag y gall dau adeilad fod - mae un yn drawiadol a modern tra bod y llall yn llawn cymeriad. Ond mae ganddyn nhw un peth hanfodol yn gyffredin - mae'r ddau yn gweithredu fel canolfan ar gyfer eu cymuned fusnes, gan ddarparu cartref i entrepreneuriaid lleol lle gallant ddod o hyd i gyngor a chefnogaeth arbenigol ochr yn ochr â phobl o'r un anian sydd â nodau tebyg.

Mae'r cymunedau busnes hyn yn ffynnu diolch i egni a phenderfyniad ein timau Hwb ochr yn ochr â chefnogaeth unigryw a chraff gan ein partneriaid niferus.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru ddyfarnu'r contractau ym mis Hydref, buom yn gweithio i sefydlu dau Hwb newydd sbon yn gynnar ym mis Ionawr. Roedd yn anrhydedd i ni groesawu Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i agor ein Hwb Menter yng Nghaerfyrddin yn ffurfiol ar 22 Mawrth. Cafodd y gwasanaeth newydd groeso cynnes iawn gan y gymuned fusnes yng Nghaerfyrddin gyda'r Hwb yn llawn o randdeiliaid yn dathlu'r lansiad.

Wrth edrych ymlaen rydym yn barod i dyfu a datblygu ein rhwydwaith o entrepreneuriaid lleol yn yr Hybiau cymunedol cydweithredol hyn gyda chefnogaeth cyngor busnes arbenigol, digwyddiadau a gweithdai.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Benthyciadau Dechrau Busnes

START UP LOANS®
Partner Cyflenwi Swyddogol

Mae Benthyciadau Cychwyn Busnes yn trawsnewid busnesau Cymru

Mae Busnes mewn Ffocws yn rhagori wrth gysylltu gwasanaethau cymorth gyda'i gilydd i roi'r pecyn cymorth mwyaf cynhwysfawr posibl i'n cleientiaid ac mae ein tîm cynghori ar Fenthyciadau Dechrau Busnes yn arbenigwyr ar hyn. Bu datblygu rhwydwaith atgyfeirio cryf a gweithio gyda grŵp sefydledig o randdeiliaid a darparwyr gwasanaeth yn allweddol i lwyddiant parhaus y rhaglen eleni.

Mae'r cynllun Benthyciadau Dechrau Busnes yn ariannu busnesau ym mhob sector cyn belled â bod yr ymgeisydd dros 18 oed. Eleni rydym wedi ymestyn ein cyrhaeddiad daearyddol ac ehangu ein rhwydwaith atgyfeirio sy'n golygu ein bod wedi gallu cefnogi mathau mwy amrywiol o fusnesau.

Fel partner cyflenwi Benthyciadau Dechrau Busnes rydym yn fwy na dim ond darparwr cyllid. Dyluniwyd ein dull gweithredu i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i adeiladu busnes cryf.

Yn ogystal â helpu ymgeiswyr i baratoi eu cynllun busnes a'u rhagamcanion ariannol, mae Busnes mewn Ffocws yn gyfrifol am asesu ceisiadau benthyciadau terfynol a darparu cefnogaeth fentora barhaus i ymgeiswyr llwyddiannus. Trwy ein Gwasanaeth Busnes Cymru, rydym yn dod â gwerth ychwanegol i ymgeiswyr, ac mae'r opsiynau llety hyblyg y gallwn eu cynnig hefyd yn caniatáu i ni greu pecyn cymorth wedi'i deilwra gan dynnu ar gryfder pob maes o'n busnes.

Mae Busnes mewn Ffocws yn falch o ddweud bod Benthyciadau Dechrau Busnes wedi cael effaith drawsnewidiol ar fywydau cannoedd o unigolion, eu cymunedau lleol a'r genedl gyfan.

Yn 2018-19 llwyddodd Busnes mewn Ffocws i gefnogi cannoedd o gleientiaid gyda 316 ohonynt yn sicrhau benthyciad. Cyfanswm gwerth y benthyciadau oedd £3.6 miliwn.

316
o gleientiaid yn cael benthyciad

Cyfanswm gwerth y benthyciadau a ddyrannwyd oedd
£3.6m

Syniadau Mawr Cymru

A all busnesau pobl ifanc oroesi yn 2019? Rydym yn gwybod am grŵp gwych o bobl ifanc a fyddai'n bendant yn dweud eu bod nhw'n gallu!

Syniadau Mawr Cymru

Eleni, rhoddodd ein Cynghorwyr Busnes arbenigol gyngor pwrpasol i 350 o bobl ifanc i gefnogi eu hanghenion busnes, gan eu helpu i ddechrau 22 o fusnesau newydd.

Yn gynyddol, mae pobl ifanc yng Nghymru yn troi at hunangyflogaeth fel llwybr gyrfa hyfyw ac mae Syniadau Mawr Cymru yno i'w cefnogi. Mae ein profiad wedi ein dysgu mai magu hyder yw'r allwedd ac rydym yn gweithio gyda Modelau Rôl arbenigol i feithrin hunangred ym mhob un o'n hymgeiswyr ifanc. Mae ein Bŵtcamp i Fusnes preswyl dros dri diwrnod yn enghraifft wych o'n Cynghorwyr Busnes yn gweithio gyda Modelau Rôl a siaradwyr ysbrydoledig i annog entrepreneuriaeth. Ar 16 Tachwedd, gwnaethom groesawu 41 o bobl ifanc i'r Bŵtcamp ac rydym yn falch i adrodd bod 9 busnes newydd wedi dechrau o ganlyniad i'r cyngor a'r gefnogaeth a ddarparwyd.

Mae Syniadau Mawr Cymru yn rhaglen Llywodraeth Cymru a ddyluniwyd i gefnogi entrepreneuriaid ifanc 16-25 oed. Darperir ein harweiniad a'n cefnogaeth trwy ddigwyddiadau ysbrydoledig a chyngor un i un gan Gynghorwyr Busnes sydd â phrofiad arbenigol o ddeall yr heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.

Wedi darparu cyngor a chymorth pwrpasol i

350 o bobl ifanc

i gefnogi eu hanghenion

Mae Cydweithio yn Allweddol ym Merthyr

A oes gennych chi syniad busnes, ond ddim yn siŵr sut i'w ddatblygu? Mae Menter Merthyr yn cefnogi pobl ym Merthyr Tudful sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth ac sy'n chwilio am gyngor i roi syniad ar waith. Mae'r rhaglen gymorth hon y mae mawr ei hangen yn enghraifft wych o sut mae gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau canlyniadau. Wedi'i leoli yn adeilad MTEC ar stryd fawr Merthyr Tudful, mae'r rhaglen yn cydweithredu â sefydliadau ledled y sir i adnabod pobl sy'n ceisio cefnogaeth a darparu'r lefel gywir o gymorth i bob un. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi cefnogi llawer o bobl leol a'r nod yw cyrraedd mwy eto.

Dyfarnwyd y contract hwn i Busnes mewn Ffocws ym mis Chwefror ac mae'n falch iawn o gael y cyfle i ddarparu gwasanaeth cymorth gwerthfawr i gymuned Merthyr. Bydd y fenter tair blynedd hon gan Lywodraeth Cymru yn galluogi unigolion sy'n profi anawsterau a rhwystrau i ystyried llwybr amgen, gan ddysgu beth sydd ei angen i wneud syniad busnes yn llwyddiant. Bydd y cleientiaid yn cael cymorth ac arweiniad cyfrinachol trwy gydol y daith.

Mae'r rhaglen hon yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd eisiau troi eu hangerdd neu hobi yn fenter newydd posib.

> *"Mae'r prosiect newydd, cyffrous hwn gan Lywodraeth Cymru yn gyfle gwych i estyn allan a darparu cefnogaeth, arweiniad a help i bobl ym Merthyr Tudful sy'n wynebu heriau a rhwystrau, ac y gallai eu busnes eu hunain fod yn gam nesaf perffaith iddynt."*
>
> *Dywedodd Carmel Barry, Cydlynydd Ymgysylltu'r Rhaglen*

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative

Busnesau rydym wedi eu helpu ar hyd y ffordd...

Jonny Hanford, Jonny Blades

Landscapes for Learning

George Bellwood, Virtus Tech

Jessica Fletcher, Bean & Bread

Radical Tea Towel Company

APSM Engineering

WR Bishop

Lisa Davies, Alby and Eric

Ellis Smith, The Barbell Club

Team Pinball

James Lewis, Dylunio Graffeg a Theipograffeg

Ystadegau Ariannol

Mantolen
31 Mawrth 2019

	2019	2018
	£000s	£000s
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol	194	229
Buddsoddiadau		
Eiddo buddsoddi	12,525	11,035
	12,719	11,264
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	826	1,282
Arian yn y banc ac mewn llaw	226	57
	1,052	1,339
Credydwyr		
Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(1,744)	(1,556)
Rhwymedigaeth Gyfredol Net	(692)	(217)
Cyfanswm yr Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol	12,027	11,047
Credydwyr		
Symiau sy'n ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn	(1,549)	(1,674)
Darpariaethau ar Gyfer Dyledion	(774)	(454)
Asedau Net	**9,704**	**8,919**
Cronfeydd wrth gefn		
Cronfa ailbrisio	5,988	5,272
Enillion a gedwir	3,716	3,647
	9,704	**8,919**

Cyfrif Elw a Cholled
Blwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2019

	2019	2018
	£000s	£000s
Trosiant	5,296	4,759
Cost gwerthiannau	(3,243)	(2,840)
Elw Gros	2,053	1,919
Costau gweinyddu	(1,898)	(1,707)
Elw Gweithredol	155	212
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	–	28
	155	240
Enillion/colledion yn sgil ail-werthuso eiddo buddsoddi	863	420
	1,018	660
Llog taladwy a chostau tebyg	(64)	(82)
Elw Cyn Trethiant	954	578
Treth ar Elw	(169)	(6)
Elw am y Flwyddyn Ariannol	785	572
Incwm Cynhwysfawr Arall	–	–
Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn	**785**	**572**



Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr yn Busnes mewn Ffocws am eu gwaith caled ac ymroddiad eleni. Dylem oll fod yn hynod falch o'r cymorth gwerthfawr rydym wedi ei ddarparu i fusnesau yng Nghymru.



Aelodau Bwrdd

Geraint Evans, Cadeirydd,
Gorsedd Ltd

Keith Thomas, Dirprwy Is-gadeirydd,
Verve Management Ltd

Katy Chamberlain, Prif Weithredwr,
Business in Focus Ltd

Annamaria Bridson,
Banc Natwest Bank plc, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Christopher Richards,
HSBC Bank

Gerald Kelly,
Sony Global Manufacturing Operations Corporation

Jenny Jones LLB,
Morgan Denton Jones

John Sheppard,
Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru

Jonathan Good,
Barclays Bank

Nicola McNeely,
Harrison Clark Rickerbys Limited

Nirmal Chhabria,
SIMEC

Robert Bevan,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Robert James, Partner,
*Geldards LLP*Y Cynghorydd

Steve Hudd,
SPS Ltd

Victoria Fisher,
Lloyds Bank plc

Diswyddiadau ers 1 Ebrill 2018

Dr Charles Smith,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Prif Swyddfa
Unedau 14/15 Parc Bocam
Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5LJ

01656 868545
hello@businessinfocus.co.uk
www.businessinfocus.co.uk